Llwybr Marchogaeth Cenedlaethol cyntaf i Fannau Brycheiniog

Bu'n bleser mawr imi yn rhinwedd fy swydd fel Prif Weithredwr Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog lawnsio Taith Ceffylau'r Tair Afon ar y cyd â Phrif Weithredwr Cymdeithas Ceffylau Prydain Graham Cory a Chyfarwyddwr Cyngor Cefn Gwlad Cymru Mr John Lloyd-Jones OBE

Dyma fenter Cymdeithas Ceffylau Prydain sydd yn cychwyn o Tidbach yn Swydd Caerwrangon, trwodd i Wolferlow yn Swydd Henffordd ac i mewn i'r Parc Cenedlaethol wrth Benybegwn ger y Gelli, ac yn dod i ben yng Nghanolfan Ymwelwyr y Parc Cenedlaethol yn Libanus. Trodd ceffylau a marchogion allan i fwynhau diwrnod o haul ar Medi 9fed a chael rhagflas ar rannau o'r llwybr o'r Ganolfan.

Gall y profiad o deithio ar gefn ceffyl trwy olygfeydd mor wych gysylltu'r marchog â'r tirwedd mewn ffordd sydd yn unigryw. Dyma'n wir y ffordd orau o deimlo'r gorchwyl difrifol o gael y cydbwysedd cynaliadwy'n iawn: mantais y golygfeydd dros ben y perthi, bod yn nes at fywyd gwyllt, ar gefn ceffyl, yn un â'r tirlun.

Mae gweithio gyda phartneriaid wrth hyrwyddo mynediad cynaliadwy yn y Parc Cenedlaethol yn hanfodol wrth sicrhau y diogelir prif ddibenion y Parc. Mae darparu gwybodaeth berthnasol i ymwelwyr, cynnig cynhyrchion gweithgareddau cynaliadwy i fusnesau twristiaeth y gallant fod yn hyderus amdanynt a rhoi gweithgareddau i'w mwynhau i'r rhai sydd yn byw ac yn gweithio o fewn y Parc yn gweithio'n effeithiol pan fydd gweledigaeth debyg gan bartneriaid fel Cymdeithas Ceffylau Prydain. Mae taflen sydd yn manylu ar Llwybr Ceffylau'r Tair Afon ar gael gan Ganolfannau Ymwelwyr y Parc Cenedlaethol.

Felly dyma'r neges: mae twristiaeth farchogaeth yn bendant yn rhan o'r dyfodol i dwristiaeth yn yr ardal. Dymunnaf dymor godidog i chi i gyd yn 2005.

Dysgwch fwy ar www.horseridingbreconbeacons.org

Chris Gledhill
Prif Weithredwr, Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

Gweithio gyda'n gilydd

Gall gweithredwyr twristiaeth i gyd ledled y rhanbarth fanteisio ar Gynllun Cefnogaeth Rhanbarthol Cyd-Farchnata newydd Partneriaeth Twristiaeth Canolbarth Cymru.

Dyluniwyd y cynllun ar gyfer prosiectau marchnata a ddatblygir ar y cyd gan nifer o bartneriaid. Felly, os ydych chi ac o leiaf dau fusnes twristiaeth arall - darparwyr llety, gweithredwyr gweithgareddau, gweithredwyr atyniadau ac yn y blaen - am weithio gyda'ch gilydd i ddatblygu neges farchnata ar y cyd a fydd yn apelio at ymwelwyr a'i gwneud yn haws iddynt fwynhau gwyliau yma yng Nghanolbarth Cymru,

Ewch at ein gwefan yn www.mwtp.co.uk neu ffoniwch Mari Stevens ar 01654 704222.

Twristiaeth Weithredol

Gwahoddir chi i ddiwrnod ar gyfer busnesau twristiaeth a grwpiau cymunedol ar 6ed Ebrill i drafod sut y gellir symud twristiaeth yn ei blaen yn ardal y Parc Cenedlaethol.

Ein gobaith yw y bydd hyn yn ein galluogi ni i gyd i weithio'n agosach gyda'n gilydd.

Gweler y gwahoddiad amgaeëdig neu ffoniwch y Tîm Twristiaeth.

Bws y Bannau

Ardal Tyfiant Twristiaeth

Cofnodwyd dros 4500 o deithiau ar Fws y Bannau yn 2004. Mae'r gwasanaeth wedi ennill ei le ac amcangyfrifir iddo ddod â mwy na gwerth £50,000 o fusnes i mewn i'r ardal heb unrhyw geir ychwanegol. Mae arbrawf Gwibfws Clawdd Offa (Y Gelli - Llanddewi Nant Hodni - y Dref Hir - y Gelli) wedi profi ei hunan yn bendant fel bws i gerddwyr a byddwn yn parhau gyda'r gwasanaeth hwn. Lluniwyd ar gyfer ymwelwyr sydd yn aros yn yr ardal, felly os ydych chi'n byw ar un o'r teithiau, mynnwch gopïau o'r daflen yn y Canolfannau Gwybodaeth ynghyd â chopïau o Ganllaw Teithio'r Parc Cenedlaethol sydd yn cynnwys amserlenni diwrnodau gwaith.

Cronfa Gyfalaf £500,000

Eleni byddwn yn mynd i mewn i gam gwefreiddiol o'r Gronfa Gyfalaf, a byddwn yn gweld canlyniadau rhai o'r ceisiadau a wnaed llynedd yn dod yn wirionedd. Fel sydd yn wir am y rhan fwyaf o grantiau, mae'n cymryd amser a dyfalbarhad o wneud y cais i gwblhau'r fenter, ond gobeithio y bydd yn dangos ei werth yn ystod y tymor i ddod.

Mae nifer o brosiectau blaengar yn aros am asesiad o hyd, ond nid yw'n rhy hwyr i fusnesau wneud cais i'r Cronfa Gyfalaf o dan yr amgylchiadau canlyniol:

- Yr ydych yn ddarparwyr gweithgareddau neu lety neu'n sefydliad arlwyo sydd ag ymwelwyr yn darged;
- Mae gennych chi brosiect sydd yn galw am gymorth ariannol ar gyfer gwaith adeiladu, gosodolion, tirlunio, taliadau proffesiynol, offer ac arwyddion;

Hefyd rhaid bod y prosiect yn cwrdd â rhai o'r amcanion canlynol:

- Gwella ansawdd neu helaethrwydd
- Creu neu sicrhau swyddi.
- Codi safon y busnes i lefel 4 Seren y Bwrdd Croeso neu'n uwch.

Os oes gennych chi syniad am brosiect neu os hoffech chi archwilio syniadau, cysylltwch â Swyddog Prosiect TGA, Carol Williams.

Teithiau Cerdded Bywyd Gwyllt

Bellach mae gennym gyllid gan Bartneriaeth Twristiaeth Canolbarth Cymru i lunio cynhyrchiad newydd o gwmpas Teithiau Cerdded Bywyd Gwyllt. Y syniad y tu ôl i'r rhain oedd rhoi yniadau i bobl am deithiau cerdded byrrach i fewn i Warchodfeydd Natur yn y Parc Cenedlaethol ac o'u mewn.

Tarddodd y syniad o'r Strategaeth Twristiaeth Gerdded - bod angen darparu mwy ar gyfer cerddwyr heblaw am rhai'r bryniau a bod y grwpiau hyn yn mynnu mwy na dim ond cyfarwyddyd: rhaid wrth gyrchfan a diddordebau ychwanegol. Ni hybwyd bywyd gwyllt yn arbennig fel cymhelliad am ymweliadau hyd yn hyn a bydd hyn yn mynd beth ffordd i gywiro hynny. Ysgrifennwyd y llyfryn gan Dan Butler (sydd yn ysgrifennu i Country Living, Daily Telegraph, ac yn y blaen) a bydd yn ymddangos yn gynnar yr yr haf eleni.

Cynllun Grantiau Bach Newydd

Mae'r Bwrdd Croeso'n arloesi cynllun grantiau bach i gynorthwyo busnesau twristiaeth yng Nghymru sydd yn gwneud buddsoddiad cyfalaf i wella mynediad a chyfleusterau ar gyfer pobl anabl. Nid galluogi busnes i gwrdd â holl ofyniadau'r Ddeddf Anffafrio'r Anabl mo amcan y grant, ond yn hytrach cefnogi datblygiad sydd yn symud tuag at yr amcan hwn.
Dyma enghreifftiau sydd yn dangos yr eitemau a all fod yn ddilys am y grant:

- Barau gafael
- Canllawiau a rampiau
- Arwyddion
- Drysiau Esgynlawr
- Ffonau Testun

Y gost gyfalafol leiaf sydd yn ddilys yw £2500. Y gost gyfalafol uchaf sydd yn ddilys yw £10,000. Ni fydd cyfradd y grant yn fwy na 35%.

Mae Achlysuron yn golygu busnes!

Lawnsiodd Partneriaeth Twristiaeth Canolbarth Cymru ei chynllun marchnata a chefnogi achlysuron blaengar diweddaraf ar 1 Rhagfyr 2004. Mae'r cynllun yn darparu cefnogaeth ariannol am farchnata a hyfforddiant fel y cyfryw i helpu trefnwyr achysluron i ddatblygu eu marchnata, cynyddu nifer yr ymwelwyr ac annog gwariant uwch yn yr ardal amser trai y tu allan i'r brif dymor.

Esboniodd Dee Reynolds, Cyfarwyddwr Strategaeth Ranbarthol, Partneriaeth Twristiaeth Canolbarth Cymru, yn y lawnsiad: "Mae Ymchwil wedi dangos y gall achlysuron fod yn gyfrannydd allweddol i dyfu twristiaeth yng Nghanolbarth Cymru, gan godi amlygedd, annog mathau newydd o ymwelwyr ac ymestyn y tymor, a gall hyn i gyd ddod â buddion economaidd clir a chanfyddadwy.

Ers dwy flynedd bellach, rydym yn gweithredu cynllun grantiau a ddyluniwyd i gynorthwyo achlysuron. Bydd y cynllun newydd hwn yn parhau gyda'r gefnogaeth hon,ond â'n bellach trwy annog trefnwyr achlysuron i ymgymryd â hyfforddiant rheoli achlysuron arbenigol er mwyn creu achlysuron rhanbarthol mwy pwrpasol a helpu'r achlysuron eu hunain i fod yn gynaliadwy'n economaidd."

Yn 2003/04,cefnogwyd 46 o achlysuron a ddaeth ag incwm amcangyfrifol o £900,000 i mewn i'r rhanbarth a hyd yn hyn yn 2004/05, amcangyfrifir bod 60,000 o ymwelwyr ychwanegol wedi dod i'r rhanbarth i fynychu achlysur.

Mae cyllid ar gael o hyd a dylai trefnwyr achlysuron gysylltu â Sheila Moss, Swyddog Prosiect Cynllun Marchnata ar 01654 702653 (events.mwtp@tourism.wales.gov.uk neu ewch i'r wefan yn www.mwtp.co.ukam wybodaeth a ffurflenni cais.

Canllaw Croeso

Cewch eich copïau o'r Canllaw o unrhyw Ganolfan Gwybodaeth Twristiaid!

Unwaith eto, dyma'r unig ddarn o lenyddiaeth dwristiaeth sydd yn benodol i Fannau Brycheiniog, ac mae'n talu ffordd i roi copi ym mhob ystafell, anfon un allan gyda chadarnhad a chadw copi yn eich lle busnes. Defnyddir y llyfrau i gefnogi ymgyrchoedd marchnata, ceisiadau am wybodaeth ar sail y wê ac ymholiadau yn y Canolfannau Gwybodaeth. Ceir llawer o wybodaeth ar le i fynd, lle i aros ac i fwyta a beth sydd i'w wneud. Cefnogir y Canllaw gan wefannau www.visitbreconbeacons.com a www.breconbeacons.net

Argraffwyd 140,000 o gopïau eleni, felly ni cheir unrhyw broblemau gyda phrinder llyfrau tua diwedd y tymor, gobeithio.

Ias y Creigiau!

Ar hyn o bryd mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog wrthi'n gweithio ar y camau terfynol o broses ddethol i fod yn aelodau o Rwydwaith Geoparciau Ewrop. Saif yr ardal a ddewisiwyd ar gyfer ein Geoparc ni yn bennaf i'r gorllewin o ffordd yr A470 o Aberhonddu i Ferthyr Tudful, ond mae'n cynnwys Pen-y-Fan a Chorn Du hefyd.

Trwy fod yn aelodau o'r Rhwydwaith hwn byddwn yn gallu partneru Geoparciau eraill ledled Ewrop a Tsieina ac annog ymwelwyr newydd i ddod i'r ardal. Mae gan hyn y posibilrwydd o ymestyn y tymor twristiaeth, gan fod gwywiad y llystyfiant yn yr hydref a'r gaeaf yn gwneud cerrig, creigiau a thirwedd yn haws eu gweld.

Byddwn yn gwybod erbyn yr haf a lwyddodd ein cais: yn y cyfamser cymerwch gipolwg ar www.worldgeopark.org a www.europeangeoparks.org

Rydym yn dal i gwblhau'r gwaith ar y Strategaeth hon, felly diolch yn fawr i bawb sydd wedi cyfrannu.

Mae'n dweud wrthym yn weddol cadarn bod rhaid denu teuluoedd, pobl sydd wedi ymddeol yn gynnar a phobl eraill sydd yn hoffi teithiau cerdded byrrach a llai heriol, nid cerddwyr y bryniau yn unig. Mae hyn yn gweddu'n dda â'r syniad ein bod am annog pobl i ddod i mewn i'n siopau, tafarnau a'n siopau coffi a the lleol yn ogystal ag i'n llety. Mae'n golygu hefyd y bydd llai o wrthdrawiadau ag amcanion amgylcheddol. Canlyniad uniongyrchol hyn yw ein llyfryn Teithiau Cerdded Bywyd Gwyllt.

Bannau Bywiog

Pencampwriaeth TREC Prydain yn dod i Aberhonddu

Dyma grîp cyfansoddiedig o fusnesau'n seiliedig ar Weithgareddau ac Atyniadau wrth farchnata a datblygu ardal Bannau Brycheiniog fel cyrchfan am dwristiaeth weithgaredd, mewn ffordd gynaliadwy ac amgylcheddol.
Ceir lawnsiad gyda GÎyl Gweithgareddau ar 16eg a 17eg Gorffennaf ym Mhenpont sydd hefyd yn llwyfanu Pencampwriaethau Mynyddfyrddio Agored Cymru ar yr un penwythnos.
Hoffem wahodd pob busnes megis llety, gwasanaethau bwyd, gwersylloedd, mân-werthwyr yn ogystal â darparwyr gweithgareddau i gymryd rhan yn yr Îyl a Bannau Bywiog.
Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â Chadeirydd Bannau Bywiog, Keith Lee 01874 610071.



Bydd Canolfan Merlota a Marchogaeth Cantref yn croesawu'r achlysur dau ddiwrnod hwn ar Ddydd Sadwrn 3ydd Medi a Dydd Sul 4ydd Medi.
Bydd ceffylau a marchogwyr yn dod i Aberhonddu o'r UDA, Iwerddon a'r cyfandir i gystadlu ym Mhencampwriaeth TREC Prydain 2005. Bydd cynnig croeso cynnes yn flaenoriaeth o'r rheng flaenaf, felly os ydych chi am ddarparu llety ar gyfer ceffylau a marchogwyr, cysylltwch â Colin Evans ar 01874 665223.
Bydd angen gwirfoddolwyr i weithio fel swogs yn ystod y penwythnos: bydd hyfforddiant ar gael, ac os hoffech fod yn rhan o hyn oll, ffoniwch Colin i gofrestru eich diddordeb.
Cynhelir adran draws gwlad y gystadleuaeth ar y Dydd Sul a dyma rywbeth sydd yn wych i'w gweld, felly rhowch wybod i'ch ymwelwyr am yr achlysur, ac os bydd yr amser gennych chi hefyd, dewch i fwynhau!

Gwefan Twristiaeth Newydd

Byddwn yn ychwanegu gwefan twristiaeth marchogaeth newydd www.horseridingbreconbeacons.com at wefannau beicio a beicio mynydd Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.
Rhoddwyd y gwaith i gwmni dylunio gwefannau s8080 a ddyluniodd wefannau Pysgota, Antur a Beicio Mynydd y Bwrdd Croeso.
Y nod yw hyrwyddo Bannau Brycheiniog fel cyrchfan ardderchog am farchogaeth, nid yn unig ar gyfer y marchogwr eu hunain ond hefyd y teulu cyfan. Er enghraifft byddai mynd i wylio rasio harnais neu ymweld â Chanolfan Ymddiriedolaeth Ceffylau a Merlod Lluest yn deithiau diddordol.
Os gallwch gynnig gwely a brecwast i geffylau neu unedau hunan-arlwyo gyda stablau, neu os yn gysylltiedig ag unrhyw fusnes yn ymwneud â cheffylau ac am gael manylion pellach o'r wefan, cysylltwch â Carol Williams.

Rhaid eich bod chi'n tynnu 'nghoes!

- **Llyfryn gwyliau neilltuol i Farchogaeth yng Nghymru gyda dosbarthiad o 200,000?**
- **Gwefan yn cynnwys yr holl wyliau sydd yn gysylltiedig â cheffylau, canolfannau merlota a gwyliau marchogaeth ym Mannau Brycheiniog a gweddill Cymru?**

Yn Eich Breuddwydion!

Ymgyrch hyrwyddo i ddweud wrth y byd i gyd am Gymru fel cyrchfan marchogaeth, gyda phresenoldeb yn Badmington, Hickstead, Olympia a Sioe Frenhinol Lloegr yn Stonleigh?
YCewch ddychmygu ci Churchill Insurance yn ysgwyd ei ben. Ond mae pob un o'r uchod wedi cyrraedd y cam cynllunio gyda Chyngor Ceffylau Cymru sydd newydd ei ffurfio mewn cydweithrediad â'r Bwrdd Croeso.Mae'r Cyngor yn cynrychioli dros 45 o gyrff marchogaeth yng Nghymru a bydd y cytundeb marchnata sydd newydd ei ddyfarnu yn rhoi llais teg o'r diwedd i fannau gwyliau ceffylau a'r diwydiant ceffylau.

Am wybod mwy? …. Arhoswch tan fis Chwefror a mis Mawrth. www.wec.co.uk

Ydych chi mewn canolfan both beicio?

Os oes gennych chi fusnes twristiaeth yn Aberhonddu, Crughywel, Pontsenni, Tal-y-Bont neu Dalgarth, yna YDW yw'r ateb!

Ac os nad ydych yn gwybod am wyliau beicio na'r llwybrau beicio mynydd yn eich ardal chi, mae'n bosibl y byddwch yn colli allan ar fusnes hanfodol. Lawnsiwyd llwybrau beicio ar gyfer selogion beicio ar y ffyrdd ac oddi arnynt llynedd ac mae ganddynt foth beicio yn ganol iddynt.

Mae gwefannau neilltuol ar gael bellach ar www.cyclebreconbeacons.com a www.mtbbreconbeacons.com Mae adran marchnata gweithgareddau'r Bwrdd Croeso'n buddsoddi amser ac arian i hyrwyddo'r llwybrau sydd bellach yn destun llyfryn yn rhad ac am ddim a ddosberthir yng nghylchgrawn cenedlaethol beicwyr mynydd, MTB.

Mae pecynnau ar y llwybrau ar gael ar gyfer y pum llwybr egwyl beicio a'r un ar bymtheg o lwybrau beicio mynydd . Mae gostyngiad ar gael i fusnesau twristiaeth, felly ffoniwch Bev Powell ar 01874 620446 i archebu'ch copi chi. Mae cardiau post car gael yn rhad ac am ddim hefyd sydd yn dangos beicwyr mynydd yn mwynhau rhai o'r llwybrau cyfareddol: gofynnwch am rai wrth wneud eich archeb gyda Bev. Eleni byddwn yn gosod paneli dehongli ym mhob un o'r bothau beicio, diolch i gymorthdal gan Bartneriaeth Twristiaeth Canolbarth Cymru.

Welsh Country

Welsh Country yw'r unig gylchgrawn deufisol a neilltuir i dirwedd hardd, cynhyrchion godidog a'r bobl garismatig sydd yn cyd-weu i greu y Gymru amrywiol sydd ohoni. Mae'r cylchgrawn lliw llawn yn cynnwys detholiad ardderchog o destunau, a chyda chyfraniadau colofnwyr rheolaidd yn ychwanegu'u barn i'r hyn sydd yn digwydd yng Nghymru; yn wir, mae rhywbeth yma i bawb.

Dosberthir y cylchgrawn trwy nifer o ffyrdd, yn aml trwy llawer o'r hysbysebwyr, felly os byddwch yn cymryd hysbyseb bach yn y cylchgrawn mae'n bosibl y byddwch yn cael copïau i'w rhoi i'ch gwesteion. Byddai hynny'n rhoi i'ch ymwelwyr y teimlad o ofal arbennig iawn a bydd hefyd yn eu hannog i ddod yn ôl i Gymru drachefn i gael profiad y llu o olygfeydd godidog, a blas a heddwch y wlad.

Gan fod cymaint o alw am Welsh Country maent yn archwilio'r posibiliadau o ddosbarthu trwy gyfanwerthwyr papurau newydd i mewn i brif werthfannau papurau newydd a chylchgronau.

Dylai hyn fod yn barod ar gyfer rhifyn Mawrth/Ebrill a bydd yn golygu yn bydd y nifer a ddosberthir yn codi o 13,000 i argraffiad o 25,000 o leiaf.

I ddarganfod mwy cysylltwch â 01559 372010 neu e-bostiwch inbox@welshcountry.co.uk

Diogelu Data

Os cawsoch chi'r cylchlythyr hwn trwy'r post, mae'n golygu eich bod chi ar y sail data a grëwyd gennym. Casglwyd enwau a chyfeiriadau o ffynonellau sydd ar gael yn gyhoeddus megis defnyddiau marchnata ac yn y blaen neu o'ch cais chi i ofyn inni ychwanegu eich enw at y rhestr bostio. Hefyd mae'n bosibl y byddwn yn cadw gwybodaeth ar rifau ffôn, cyfeiriadau e-bost, cyfeiriadau gwefan, cofnod o'ch math chi o fusnes, gwobrau a enillwyd gennych a gwybodaeth arall sydd yn berthnasol i dwristiaeth. Diogelir yr holl wybodaeth hon o dan Ddeddf Diogelu Data.

Bwriadwn ddefnyddio'r data hwn i ddosbarthu'r cylchlythyr hwn, gwybodaeth am ddigwyddiadau hyfforddi, mentrau a chynlluniau newydd, ymgynghoriadau a phrosiectau eraill yn ymwneud â thwristiaeth. O bryd i'w gilydd mae'n bosibl y byddwn yn rhoi cyfeiriadau ymlaen i bartneriaid y byddwn yn gweithio â nhw ar brosiectau twristiaeth, ond ni fyddwn fyth yn gwerthu'r wybodaeth ymlaen nac yn ei rhoi i gyrff masnachol oni bai ein bod yn gweithio gyda nhw yn uniongyrchol ar un o'n prosiectau.

Os nad ydych am i'ch gwybodaeth chi gael ei defnyddio yn y fath ffordd, rhowch wybod inni a byddwn yn eich tynnu oddi ar y sail data. Hefyd rhowch wybod inni os byddwch yn cael copïau lluaws neu os nad ydych yn ymwneud bellach â thwristiaeth. Yn yr un modd, os hoffech weld copi o'ch gwybodaeth, rhowch wybod imi, o ddewis trwy e-bost. Richard Tyler.

Y Ddraig Werdd

Daeth dros dri deg o fusnesau i ddigwyddiad y Ddraig Werdd ym mis Ionawr i ddarganfod mwy am y cynllun. Mae un ar hugain o fusnesau wedi arwyddo cytundeb i fynd drwy'r broses, felly, gobeithio, bydd dros 40 o fusnesau achrededig yn y Parc Cenedlaethol erbyn yr haf.

Mae busnesau wedi darganfod bod modd iddynt arbed arian ar ynni a phryniadau eraill tra bod cymeradwyaeth y cwsmeriaid am eu hymdrechion yn cynyddu. Byddwn yn ail-adrodd y gwaith marchnata eleni a bu modd inni gynnig gostyngiad am hysbysebion yn y Canllaw Croeso.

Cyrsiau

Darperir y cyrsiau canlynol yn rhad ac am ddim, gan iddynt dderbyn cymorthdal hael gan "Medrwn" mewn partneriaeth ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Rhaglen hyfforddiant i weithredwyr twristiaeth "Medrwn", sydd â'i nod ar wella ansawdd twristiaeth a'i gallu i gystadlu. Os hoffech chi gael rhagor o wybodaeth ar "Medrwn", cysylltwch ag arlwybrwraig y prosiect, Helen Jones ar 07980 267677.

Beth yw hwnna?

12fed Ebrill ym Marchogfa Mynydd Tre-Goed, Aberllynfi 6.30yh i 8.30yh.

Beth yw enw'r aderyn 'na? Pryd fydd bryn yn troi'n fynydd? Beth yw arwyddocâd y meini acw? Rhaid i dywyswyr merlota fod yn gyfarwydd ag ymholiadau o'r math a llawer mwy!
I helpu rhoi atebion i rai o'r cwestiynau anodd hynny, dyma wahoddiad i bob tywysydd merlota i ddod i noson a fydd yn hwyl a hefyd yn addysgol. Bydd Mike Scruby, Warden Ardal Ddwyreiniol Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn mynd â chi ar daith arloesi a fydd yn rhoi'r atebion i'r cwestiynau anodd hynny!

Garddio er Bywyd Gwyllt a Bioamrywiaeth Leol

Ebrill 13eg 10.00 yb – 3.00 yng Nghanolfan Organig y Friallen, ger y Gelli Gandryll.

Mae twristiaeth bywyd gwyllt yn tyfu i fod yn sector bwysig o'r diwydiant twristiaeth a bydd y cwrs hwn yn eich helpu chi i ddenu bywyd gwyllt i'ch gardd a hefyd i dargedu eich busnes i dwristiaid sydd yn awyddus i ddod yn agos at fioamrywiaeth Bannau Brycheiniog.
Arweinir yr ysgol undydd hon ar y cyd gan Paul Benham o Ymddiriedolaeth Ymwybyddiaeth Ddaearol y Friallen www.primrosetrust.org.uk a Thîm Bioamrywiaeth Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Ar ddiwedd y dydd cewch becyn gwybodaeth ar arddio bywyd gwyllt a bioamrywiaeth leol.

Ysgrifennu Cyhoeddusrwydd i Fusnesau Twristiaeth

Ebrill 21st 10am-3.30pm, Parc Cenedlaethol Canolfan Ymwelwyr, Libanus.

Mae ysgrifennu effeithlon yn hanfodol i fusnesau bach. Mae llyfrynnau, hysbysebion, datganiadau i'r wasg a gwefannau bob un yn dibynnu ar ddefnydd eiriau cryno a thargedol. Bydd yr ysgol undyddhon o dan arweiniad y newyddiadurwr Daniel Butler (Country Living, Daily Telegraph ac yn y blaen).

Ffordd Eluned a Ffynhonnau

Ebrill 27ain 10.30yb-3.30yp; cwrdd ym Mhencadlys Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Aberhonddu.

Mae Cymdeithas y Ffynhonnau wrthi'n ymchwilio llwybr cerdded newydd i Bowys a fydd yn cysylltu lleoliad saith ffynnon, gan ddilyn llwybr Santes Geltaidd o'r 6ed Ganrif. Cewch ddysgu am hanes wyrthiol ac erchyll ac ymweld â'r safleoedd hanesyddol yng nghwmni Jan Shivel, sefydlydd Cymdeithas y Ffynhonnau. Dewch i ddarganfod y daith gerdded newydd hon a'i rhannu gyda'ch ymwelwyr. Bydd y grŵp yn teithio mewn bws mini, gan gychwyn o Swyddfeydd Awdurdod y Parc ac yn dychwelyd yno.

Ar Gefn eich Ceffyl!

Mai 17eg 1030yb-3.00yp ym Marchogfa Mynydd Tre-Goed, Aberllynfi.

Pam y mae merlota mor boblogaidd ym Mannau Brycheiniog?
Dyma gyfle i ddarganfod pam mae nifer o ymwelwyr yn dod yn benodol i fwynhau amrywiaeth o gyfleoedd am farchogaeth a merlota a chynigir yn y Parc Cenedlaethol. Cewch profiad uniongyrchol gan fynd allan am grwydriad tywysiedig byr trwy olygfeydd hyfryd i gwrdd â gweithredwyr gweithgaredd marchogaeth a dysgu am y llwybrau ceffyl newydd a gwefan Marchogaeth Bannau Brycheiniog.
Bydd cynrychiolwyr Cyngor Ceffylau Cymru sydd newydd ei sefydlu yn esbonio eu holl weithgareddau marchnata a bydd Partneriaeth Twristiaeth Canolbarth Cymru yn eich hysbysu am eu grantiau a'r mentrau eraill maent yn gweithio arnynt. Bydd cynghorwyr ac ymgynghorwyr busnes yn bresennol i ateb unrhyw gwestiynau busnes sydd gennych.

Cysylltwyr

Richard Tyler
Swyddog Twristiaeth Gynaliadwy
01874 620405
E-bost richard.tyler@breconbeacons.org

Carol Williams
Swyddog Prosiect Ardal Twf Twristiaeth
01874 620478
E-bost carol.williams@breconbeacons.org

Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
Plas y Ffynnon,
Ffordd Cambria, Aberhonddu
Powys LD3 7HP
www.breconbeacons.org
www.visitbreconbeacons.com

Hoffem ddiolch i Bartneriaeth Twristiaeth Canolbarth Cymru am gymorth wrth ariannu'r Cylchlythyr hwn.